Cardiff Council Update: 14th July

Here is the latest update from Cardiff Council, covering: Free School Meal delivery is a success for Cardiff; Test, Trace, Protect, the COVID-19 symptoms to look out for, and how to book a test; and beware the waste cowboys.

Free School Meal delivery is success for Cardiff

Cardiff's arrangement to provide Free School Meals via a regular payment system whilst schools have been closed due to COVID-19, has been successfully received.

Developed and delivered by Cardiff Council in partnership with ParentPay, the scheme has ensured children can continue to receive daily meals whilst providing parents and carers with flexibility on where they can shop.

Out of 12,671 families who have children eligible for Free School Meals, 11,216 have activated a ParentPay account, allowing them to receive a fortnightly payment deposited directly into their bank account.

Welsh Government has confirmed that payments will continue throughout the schools holidays until August 31st and will include those pupils in Year 11 – 13, whose entitlement would normally end at the close of the summer term.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: "Ensuring that children who usually receive free school meals haven't missed out during school closures has been a priority from the start and a great level of planning has gone into providing families with a range of options to best suit them.

"The regular payment system means that families have more choice and flexibility on where they purchase their children's food and the numbers to have signed up, shows the scheme has been well received amongst Cardiff's families."

Cllr Merry added, "The development and delivery of free school meal provision has seen several Council teams collaborate and is an excellent example of how Cardiff Council has worked together to successfully deliver essential support and services during the health crisis."

The ParentPay scheme runs alongside the existing voucher arrangement which some families may prefer to continue with. It provides a fortnightly voucher which can be redeemed in one of the following six supermarkets; ASDA, Tesco, Morrisons, Sainsbury's, Marks and Spencer and Waitrose.

In addition, a third option for families who may be shielding or self-isolating is also available which consists of a weekly food delivery direct to families.

If you are a parent or carer who needs support in accessing ParentPay please email Cashless.Catering@cardiff.gov.uk

For all other Free School Meal enquires please contact freeschool.meals@cardiff.gov.uk

If your financial position has changed due to the current health crisis, you may be entitled to Free School Meals for your children which continue to be provided during school closures. To check if you are eligible and for information on how to apply please visit;
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Financial-support/Free-School-meals/Pages/default.aspx

Test, Trace, Protect - Symptoms to look out for, and how to get a test

You may have coronavirus COVID-19 if you have:

- a persistent cough
- high temperature
- loss of taste or smell

Get a test.
Stop the spread.
Keep Wales safe.

Click here to apply for a coronavirus test:
https://gov.wales/apply-coronavirus-test

Beware the Waste Cowboys

With fortnightly green garden waste collections reinstated from Monday 6th July, we're almost running the waste and recycling service we offered before the Coronavirus pandemic*.

Our bulky waste collection slots are booking up quickly and we ask that you bear with us if you are waiting for a collection.

Please only book a slot if it is absolutely necessary and you are unable to keep the item in safe place at home for the time being. You can find out how to book a collection here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/Bulky-items/Pages/default.aspx

If you book a household waste collection with a private company or "man with a van", please make sure that they're a registered waste carrier by visiting Natural Resources Wales and check that they have a waste transfer note:
https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-carriers-brokers-and-dealers-public-register/?lang=en

The waste transfer note should give details on where the waste is being taken from and which licensed disposal facility the waste is being taken to. If the person collecting the waste refuses to provide this information, then do not use their services. Otherwise, if the waste is found fly tipped and is traced back to your home, you could be prosecuted or receive a Fixed Penalty Notice.

Our advice is:

- Always check for a waste carrier licence- you can do this by visiting the Natural Resources Wales website
- Always take down the company's name and contact details
- Always ask where the waste is being taken to
- Always get receipts confirming what has been taken and where it is being taken to

If you need to get rid of your items urgently, you can book in at our Recycling Centres at Lamby Way and Bessemer Close, which are now accepting large electrical items, white goods, batteries, clothes, tyres, paint and several other items that were accepted before the COVID-19 pandemic began.

Recycling Centres are for the disposal **of household waste only**.

Bookings at our Recycling Centre's are limited to 12 visits per year, per household. You can only make 1 visit in a day.

You are now also able to visit Bessemer Close Recycling Centre in a van. You can make 1 visit per day, and van bookings are restricted to 1 per month.
Please make a booking here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/waste-service-changes/recycling-centres/Pages/default.aspx

We all have a responsibility to make sure that our waste is disposed of correctly. If we find any evidence among fly-tipped material which leads back to a resident, then they will receive a Fixed Penalty Notice of £300. If we locate the trader that dumped it, they will receive a Fixed Penalty Notice of£400 or face prosecution

For more advice and information about recycling and waste services in Cardiff, please visit:
www.cardiff.gov.uk/recycling

For more advice and information about fly-tipping, please visit:
www.flytippingactionwales.org

**separate glass collections remain suspended. Recycling and food waste is collected weekly. If you are signed up for hygiene waste collections, this is collected fortnightly.*

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 14 Gorffennaf

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Caerdydd, yn trafod: dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim yn llwyddiant i Gaerdydd; Phrofi, Olrhain, Diogelu, symptomau COVID-19 i gadw golwg amdanynt, a sut i gael prawf; a gochelwch rhag y cowbois Gwastraff.

Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn llwyddiant i Gaerdydd

Mae trefniadau Caerdydd i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim drwy system taliadau rheolaidd tra bo ysgolion wedi bod ar gau oherwydd COVID-19 wedi'u barnu'n llwyddiannus.

Wedi'i ddatblygu a'i gyflawni gan Gyngor Caerdydd mewn partneriaeth â ParentPay, mae'r cynllun wedi sicrhau y gall plant ddal ati i gael prydau dyddiol wrth gynnig hyblygrwydd i rieni a gofalwyr o ran ble gallant siopa.

O'r 12,671 o deuluoedd sydd â phlant cymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, mae 11,216 wedi rhoi cyfrif ParentPay ar waith, sy'n eu galluogi i gael taliadau bob pythefnos wedi eu rhoi i'w cyfrif banc yn uniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd taliadau yn parhau drwy gydol gwyliau'r haf tan 31 Awst a bydd yn cynnwys y disgyblion hynny ym mlwyddyn 11 - 13, y byddai eu hawl fel arfer yn dod i ben ar ddiwedd tymor yr haf.

Dwedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: "Mae gwneud yn siŵr nad yw plant sydd fel arfer yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi bod ar eu colled yn ystod cyfnod cau'r ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf ac mae llawer o gynllunio wedi'i wneud er mwyn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau a fyddai orau i deuluoedd.

"Mae'r system taliadau rheolaidd yn golygu bod gan deuluoedd fwy o ddewis a hyblygrwydd o ran ble maent yn prynu bwyd eu plant ac mae'r niferoedd a sydd wedi cofrestru yn dangos bod y cynllun wedi cael croeso ymhlith teuluoedd Caerdydd."

Ychwanegodd y Cynghorydd Merry, "Mae nifer o dimau'r Cyngor wedi cydweithio i ddatblygu a chyflawni'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim ac mae'n enghraifft ragorol o sut mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio ar y cyd i gynnig cymorth a gwasanaethau hanfodol yn ystod yr argyfwng iechyd."

Mae'r cynllun ParentPay yn rhedeg law yn llaw â threfniadau talebau presennol y gall rhai teuluoedd ddewis parhau gyda nhw. Mae'n cynnig taleb fesul pythefnos y gellir ei defnyddio mewn un o'r chwech archfarchnad ganlynol: ASDA, Tesco, Morrisons, Sainsbury's, Marks and Spencer ac Waitrose.

Yn ogystal, mae trydydd dewis i deuluoedd a all fod yn hunan-warchod neu'n hunan-ynysu hefyd ar gael, sef dosbarthiadau bwyd wythnosol yn uniongyrchol i deuluoedd.

Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr sydd angen cymorth i ddefnyddio ParentPay, e-bostiwch:
arlwyodiarian@caerdydd.gov.uk

Ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill ynghylch prydau ysgol am ddim, cysylltwch â:
prydauysgolamddim@caerdydd.gov.uk

Os yw eich sefyllfa ariannol wedi newid oherwydd yr argyfwng iechyd presennol, gall fod gennych hawl i Brydau Ysgol am Ddim ar gyfer eich plant a gaiff eu cynnig tra

bo'r ysgolion ar gau. I weld a ydych chi'n gymwys ac i gael gwybodaeth ar sut i ymgeisio, ewch i:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Cymorth-Ariannol/Prydau-ysgol-am-ddim/Pages/default.aspx

Phrofi, Olrhain, Diogelu, symptomau COVID-19 i gadw golwg amdanynt, a sut i gael prawf

Peswch parhaus, tymheredd uchel neu wedi colli'r gallu I flasu neu arogli?

Efallai bod gennych y coronafeirws.

Arhoswch gartref.
Atal lledaeniad.
Diogelu Cymru.

Gwneud cais i gael prawf coronafeirws:
http://orlo.uk/cR1zb

Gochelwch rhag y Cowbois Gwastraff

Gyda chasgliadau gwastraff bob pythefnos yn ail-ddechrau o ddydd Llun 6 Gorffennaf, rydym bron â bod yn cynnal yr un gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu ag a gafwyd cyn y pandemig Coronafeirws*.

Mae ein slotiau casglu gwastraff swmpus yn cael eu harchebu'n gyflym a gofynnwn i chi gofio hyn os ydych yn aros am gasgliad.

Dylech gadw slot dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol ac na allwch gadw'r eitem mewn lle diogel yn eich cartref am y tro. Gallwch gael gwybod sut i drefnu casgliad yma.

Os trefnwch gasgliad gwastraff y cartref gyda chwmni preifat neu "dyn gyda fan", sicrhewch eu bod yn gludwr gwastraff cofrestredig trwy fynd i Cyfoeth Naturiol Cymru a chadarnhau bod ganddynt nodyn trosglwyddo gwastraff.

Dylai'r nodyn trosglwyddo gwastraff esbonio o ble mae'r gwastraff yn cael ei gasglu ac i ba gyfleuster gwaredu trwyddedig y mae'r gwastraff yn cael ei gludo. Os yw'r person sy'n casglu'r gwastraff yn gwrthod darparu'r wybodaeth hon, peidiwch â defnyddio ei wasanaethau. Fel arall, os deuir o hyd i'r gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon ac os caiff ei olrhain i'ch cartref chi, gallech chi gael eich erlyn neu dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig.

Ein cyngor ni yw:

- Dylech bob amser sicrhau bod trwydded cludo gwastraff ar gael - gallwch wneud hyn trwy fynd i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cofnodwch fanylion cyswllt ac enw'r cwmni
- Gofynnwch i ble bydd y gwastraff yn cael ei gludo

- Dylech bob tro ofyn am dderbynneb yn cadarnhau beth sydd wedi cael ei gymryd ac i le mae'n mynd

  Os oes angen i chi gael gwared ar eich eitemau ar frys, gallwch gadw lle yn ein Canolfannau Ailgylchu yn Ffordd Lamby a Chlos Bessemer, sydd bellach yn derbyn eitemau trydanol mawr, nwyddau gwyn, batris, dillad, teiars, paent a sawl eitem arall a dderbyniwyd cyn dechrau pandemig COVID-19.

  Mae Canolfannau Ailgylchu ar gyfer gwaredu gwastraff y cartref yn unig.

  Mae ymweliadau â'n Canolfannau Ailgylchu wedi'u cyfyngu i 12 ymweliad y flwyddyn fesul aelwyd. Dim ond unwaith y dydd y cewch ymweld â nhw.

  Hefyd gallwch ymweld â Chanolfan Ailgylchu Clos Bessemer mewn fan erbyn hyn. Dim ond unwaith y dydd y cewch ymweld â hi a dim ond unwaith y mis y cewch ymweld â hi mewn fan.

  Trefnwch eich ymweliad yma:
  https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/waste-service-changes/recycling-centres/Pages/default.aspx

  Mae gennym i gyd gyfrifoldeb i sicrhau bod ein gwastraff yn cael ei waredu'n gywir. Os byddwn yn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth ynghanol gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon sy'n ein harwain yn ôl i'r preswylydd, wedyn bydd hwnnw neu honno'n derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig o £300. Os byddwn yn dod o hyd i'r masnachwr a dipiodd y gwastraff yn anghyfreithlon, bydd ef neu hi'n derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig o £400 neu gael ei erlyn o bosibl.

  I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am ailgylchu a gwastraff yng Nghaerdydd ewch i:
  www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu

  I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am dipio anghyfreithlon, ewch i:
  www.flytippingactionwales.org

  *Nid yw casgliadau gwydr ar wahân wedi ailddechrau eto. Cesglir gwastraff bwyd ac ailgylchu bob wythnos. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer casgliadau gwastraff hylendid, cesglir y gwastraff hwn bob pythefnos.